

Effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol: papur briffio am y rhaglen ymchwil

Hydref 2019

Ynglŷn â'r Ganolfan Arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) eisiau i blant allu byw yn rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy ddulliau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym yn dîm amlddisgyblaethol, a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac sy'n cael ei drefnu gan Barnardo's, gan weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol o sefydliadau academiaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym yn annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵs a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein ffordd o weithio o ran cam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol mae'n rhaid i ni ddeall yr achosion, y cwmpas, y raddfa a'r effaith. Rydym yn gwybod cryn dipyn am gam-drin plant yn rhywiol ac wedi gwneud cynnydd wrth ddelio ag ef, ond mae dal llawer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth sy'n cyfyngu ar ba mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Cyflwyniad

Mae'r Ganolfan CSA wedi ymrwymo i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd gwasanaethau sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r papur briffio hwn yn dod â chanfyddiadau allweddol at ei gilydd o gyfres o dair astudiaeth a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen ymchwil 'Deall Effeithiolrwydd', a adeiladodd ar ein gwaith blaenorol er mwyn:

- ▶ gwella dealltwriaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol
- ▶ awgrymu sut gall y Ganolfan CSA gyfrannu ymhellach at hyn.

Disgrifir yr astudiaethau hyn yn yr adroddiadau canlynol, gyda phob un wedi'u cyhoeddi gan y Ganolfan CSA ym mis Hydref 2019:

[Effectiveness of services for sexually abused children and young people, Report 1: A knowledge review](#) – Di McNeish, Liz Kelly a Sara Scott.

[Effectiveness of services for sexually abused children and young people, Report 2: A survey of service providers](#) – Diana Parkinson a Rosaline Sullivan.

[Effectiveness of services for sexually abused children and young people, Report 3: Perspectives of service users with learning difficulties or experience of care](#) – Anita Franklin, Louise Bradley a Geraldine Brady.

Fe wnaethom fframio'r rhaglen waith hon o amgylch y syniad o effeithiolrwydd, y gellir ei diffinio fel i ba raddau y mae rhywbeth yn llwyddo i gynhyrchu'r canlyniad a ddymunir. Roedd ein pwyslais yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â mesur, ond aeth y tu hwnt i hynny i edrych ar y canlyniadau a ddymunir, sut cawn wybod a ydynt yn cael eu cyflawni a'r prosesau sy'n gallu creu'r canlyniadau a fwriadwyd.

Drwy gydol y rhaglen rydym wedi cwestiynu ein rhagdybiaethau ein hunain ac wedi camu yn ôl i ofyn beth yw ystyr 'effeithiol' o ran gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol. Mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc, yn hytrach nag ar yr hyn sy'n haws ei gyfrif.

Yn y papur hwn rydym yn nodi gwreiddiau'r rhaglen Deall Effeithiolrwydd, yn tynnu ar fewnwelediadau allweddol ar draws y tri adroddiad, ac yn cynnig y camau nesaf.

1. Gwreiddiau'r rhaglen Deall Effeithiolrwydd

Mae'r adran hon yn sefydlu'r cyd-destun o ran comisiynu'r rhaglen Deall Effeithiolrwydd, a'r cwestiynau y ceisiwyd eu hateb.

Pam nad ydym yn gwybod mwy am effeithiolrwydd gwasanaethau Cam-drin Plant yn Rhywiol?

Mae yna lawer o resymau dros y diffyg dealltwriaeth ar hyn o bryd ynglŷn ag 'effeithiolrwydd' o ran ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol. Yn aml nid oes gan ddarparwyr gwasanaethau yr amser, y wybodaeth na'r adnoddau i ddatblygu a gweithredu systemau gwerthuso - sy'n cyfyngu ar eu gallu i ymchwilio a dangos pa mor effeithiol ydyn nhw. At hynny, darperir gwasanaethau mewn ystod o wahanol ffyrdd, mewn gwahanol sectorau, ac mae darparwyr yn cymryd nifer o ddulliau gwahanol tuag at eu gwaith; mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd datblygu darlun ehangach o'r hyn y mae effeithiolrwydd yn ei olygu i wasanaethau sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Gan fod deall effeithiolrwydd yn faes lle mae ymchwil yn rhyngweithio ag ymarfer, mae rhai tensiynau a rhywfaint o wrthddweud yn codi. Mae comisiynwyr a'r rheini sy'n llunio polisiau yn aml yn ceisio cael tystiolaeth o effeithiolrwydd, mewn ffordd resymol, sy'n bodloni eu safonau ymchwil uchel - yn ddefnyddiol drwy hap-dreialon sydd wedi'u rheoli. Fodd bynnag, mae cynnal ymchwil fel hyn ar raddfa fawr yn arbennig o heriol mewn cyd-destun lle mae canllawiau ar arfer gorau yn pwysleisio'r angen i deilwra ymyriadau i'r plentyn neu'r person ifanc unigol.¹ Mae amrywiaeth profiadau o gam-drin rhywiol, a'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u heffeithio, yn golygu bod darparu cymorth yn broses fregus na ellir yn hawdd ei grisialu mewn astudiaeth gymharol. Yn yr un modd, mae'r canlyniadau a gyflawnir drwy'r gwaith hwn yn amrywiol - yn amrywio o ddod â'r cam-drin i ben hyd at wella ymgysylltiad gydag addysg ac adferiad emosiynol.

Beth mae'r Ganolfan CSA wedi'i gwneud yn y gorffennol i wella dealltwriaeth o effeithiolrwydd?

Mae'r gwaith a wnaed gan y Ganolfan CSA yn y gorffennol i wella dealltwriaeth o effeithiolrwydd wedi canolbwyntio ar helpu gwasanaethau i werthuso eu gwaith.

Cefnogi gwasanaethau Cam-drin Plant yn Rhywiol i ddatblygu eu gallu i werthuso

Rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018, derbyniodd 17 o sefydliadau sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr grantiau a chymorth drwy ein '[Cronfa Werthuso](#)' i wella eu gallu i asesu a dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd eu gwasanaethau. Gweithiwyd ochr yn ochr ag ymgynghorwyr gwerthuso i ddatblygu prosesau gwerthuso ac i gynhyrchu tystiolaeth gryfach o'u ffordd o weithio. Roedd adnoddau ychwanegol, fel y [canllawiau ar ddatblygu Theori Newid](#), ar gael ar ein gwefan. A daeth tri digwyddiad dysgu â'r sefydliadau a'r ymgynghorwyr gwerthuso at ei gilydd i rannu eu cynnydd, trafod sialensiau a dathlu'r hyn a gyflawnwyd.

Mae ein hadroddiad [Cronfa Werthuso'r Ganolfan CSA: Adlewyrchiad](#) yn manylu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd ac ymatebion y sefydliadau a gefnogwyd. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos amrywiaeth y gwaith a wnaed, ac roedd llawer ohono'n cynnwys ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau:

- ▶ datblygu theori newid a set gychwynnol o offer drwy ymgynghori â menywod a merched a oedd wedi defnyddio gwasanaeth neu yn ei ddefnyddio
- ▶ ymarfer cwmpasu ar gyfer cronfa ddata o gleientiaid
- ▶ datblygu offeryn canlyniadau mewn ymgynghoriad â staff a phobl ifanc
- ▶ ymgynghori ar offer gwerthuso gyda'r rheolwyr, staff rheng flaen, plant a phobl ifanc, a rhieni a gofalwyr.

Yn dilyn hynny, treialodd rhai o'r sefydliadau'r offer canlyniadau newydd a ddatblygwyd ganddynt, gyda chanlyniadau positif. Defnyddiodd nifer y data presennol i ddeall mwy am eu gwasanaethau a'u defnyddwyr - roedd gwaith o'r fath yn cynnwys dadansoddiad o enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad, asesiad o'r rhwystrau y gallai plant mewn gofal eu hwynebu wrth geisio cael asesiadau iechyd mewn canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol; ac archwilio profiadau pobl ifanc mewn llety preswyl diogel oherwydd eu bod mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol.

¹ Gweler [Working Effectively to Address Child Sexual Exploitation: An Evidence Scope](#) (Research in Practice, 2017).

Dyweddodd y rheini wnaeth dderbyn grant fod y gefnogaeth a dderbyniwyd wedi gwella eu:

- gwerthfawrogiad o werth gwerthuso
- dealltwriaeth o gymhlethdod y gefnogaeth a ddarparwyd ganddynt
- ymwybyddiaeth o'r angen am offer sy'n mesur canlyniadau'n gywir ac sydd wedi'u cynllunio gyda chyfraniad pobl ifanc.

Cyhoeddi canllaw ymarferol i werthuso

Yn dilyn gweithdy i rannu elfennau o arferion monitro a gwerthuso da gyda darparwyr gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol nad oeddent wedi cael cefnogaeth drwy'r Gronfa Werthuso, ym mis Mehefin 2019 cyhoeddwyd [Measuring Your Effectiveness: A Practical Guide for Services Working with Children and Young People Affected by Sexual Abuse](#). Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar sut i gynllunio a gweithredu systemau monitro a gwerthuso o fewn gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol, ac mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ar gynnal gwerthusiad allanol. Ymhlith y pynciau dan sylw:

- pam mae gwerthuso'n bwysig i wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth werthuso eu gwaith
- materion sydd o bwys arbennig i wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol wrth ddatblygu systemau gwerthuso, fel ystyried materion moesegol, sicrhau cydsyniad ar sail gwybodaeth a chymryd agwedd sy'n seiliedig ar drawma
- y camau sy'n gysylltiedig â datblygu system werthuso, o gyfleu Theori Newid, dogfennu'r dull gweithredu, creu cynllun gwerthuso, cynllunio offer i gasglu gwybodaeth a meddwl sut i adrodd a rhannu canfyddiadau.

Datblygu ein dealltwriaeth ymhellach

Cadarnhaodd prosiect y Gronfa Werthuso fod cynnal gwaith monitro a gwerthuso yn heriol i ddarparwyr gwasanaethau - a pha mor werthfawr oedd gosod y sylfeini ar gyfer gwerthuso. Derbyniwyd ceisiadau am grantiau gan 61 o sefydliadau, sy'n amlygu'r angen yn y sector am y math o gymorth y mae'r Gronfa yn ei gynnig.

Yr hyn oedd yn cyfyngu'r Gronfa Werthuso oedd bod ei chanlyniadau wedi'u gwasgaru ar draws y sector. Ymestynnodd y canllaw gwerthuso a'r gweithdy ei effaith, ond yn ei amserlen fer nod y Gronfa oedd gosod y sylfeini ar gyfer y gwaith gwerthuso yn unig, nid cwblhau astudiaethau gwerthuso. Roedd y cwestiwn yn parhau ynglŷn â'r hyn y gellir ei ddweud yn fwy cyffredinol am effeithiolrwydd ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol.

Gan adeiladu ar y gwaith blaenorol, cynhaliwyd ymgynghoriadau â'r sector ac ymchwil desg i nodi meysydd i'w harchwilio ymhellach o ran deall effeithiolrwydd. Yn benodol, ceisiwyd sefydlu a fyddai'n bosibl cynllunio astudiaeth werthuso aml-wasanaeth fawr, ac ymchwilio i'r elfennau y byddai eu hangen i gyflawni hyn. Nodwyd y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Beth yw prif elfennau ymarfer gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol sy'n hwyluso llwyddiant?
- A yw'r elfennau hyn yn wahanol i'r rhai sydd mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal a/neu sydd ag anawsterau dysgu/anableddau?
- Beth yw'r heriau i sicrhau llwyddiant?
- Sut dylid mesur effeithiolrwydd mewn astudiaeth werthuso?
- Beth yw'r canlyniadau sy'n cael eu hystyried yn bwysicaf gan ddefnyddwyr gwasanaethau a staff gwasanaethau arbenigol?
- A yw modelau gwasanaeth yn dod o fewn grwpiau cydlynol (er enghraifft, anghenion, bandiau oedran, math o gamdriniaeth)?
- Pa fodelau gwasanaeth y credir eu bod yn dangos addewid penodol a pham?

Comisiynwyd y rhaglen Deall Effeithiolrwydd i ystyried y cwestiynau hyn. Roedd yn cynnwys adolygiad gwybodaeth; arolwg o ddarparwyr gwasanaethau, er mwyn deall eu gwasanaethau yn well a'r plant a'r bobl ifanc y buon nhw'n gweithio gyda nhw; a gwaith ychwanegol i archwilio safbwyntiau plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu neu brofiad o fod mewn gofal (ymddengys bod y grwpiau hyn mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin yn rhywiol, a chodwyd pryderon ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol ar eu cyfer).

2. Dysgu o'r rhaglen Deall Effeithiolrwydd

Mae'r adran hon yn rhoi pwyslais ar fewnwelediadau allweddol ar draws y tair astudiaeth yn y rhaglen:

Cynhaliwyd yr **adolygiad gwybodaeth** (Adroddiad 1) gan DMSS Research mewn partneriaeth â'r Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod, Prifysgol Metropolitan Llundain, rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2018. Roedd yn cynnwys pedwar cam:

- ▶ adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth, i dynnu sylw at yr hyn y mae tystiolaeth gyhoeddedig yn dweud wrthym am ddarparu gwasanaethau ac i'r gwrthwyneb, ac i sefydlu pa werthusiadau sydd eisoes wedi'u cynnal
- ▶ cyfweiliadau 'hysbysydd allweddol' gydag 13 o unigolion a nodwyd am eu profiad a'u harbenigedd ymarfer ac ymchwil
- ▶ tri grŵp ffocws sy'n dod ag ymarferwyr, llunwyr polisi a chomisiynwyr at ei gilydd
- ▶ ymweliadau safle â 12 o wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru a Lloegr, gan ymgorffori cyfweiliadau â rheolwyr, staff a phobl ifanc a ddefnyddiodd y gwasanaethau.

Casglodd yr **arolwg o ddarparwyr gwasanaethau** (Adroddiad 2) wybodaeth gan 50 o sefydliadau a oedd:

- ▶ yn darparu cymorth penodol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol neu sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, neu
- ▶ yn targedu cam-drin plant yn rhywiol yn benodol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, weithiau ochr yn ochr â gwasanaethau ehangach.

Gofynnwyd iddynt am y math o wasanaethau roedden nhw'n eu darparu, y plant a'r bobl ifanc roedden nhw'n gweithio â nhw, yr agweddau ar ddarparu gwasanaethau roedden nhw'n eu hystyried fwyaf effeithiol, yr heriau roedden nhw'n eu hwynebu a'r ffordd roedden nhw'n gwerthuso eu gwasanaethau.

Casglwyd safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau ag anawsterau dysgu neu brofiad o ofal (Adroddiad 3) gan ymchwilwyr Prifysgol Coventry. Cafodd 10 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu eu cyfweled yn ogystal â 10 o bobl ifanc eraill â phrofiad o fod mewn gofal; roedd pob un wedi cael mynediad at wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol, ac fe'u recriwtiwyd gan ddarparwyr y gwasanaethau hynny ar gyfer yr ymchwil yma.

Argaeledd cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol

- ▶ **Mae prinder cyffredinol o wasanaethau yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol** - dywedodd y rhan fwyaf o sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg o ddarparwyr gwasanaethau fod y galw yn fwy na'u gallu, tra bod yr adolygiad gwybodaeth yn awgrymu bod nifer y gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol yn gyffredinol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- ▶ **Efallai na fydd pobl ifanc ag anawsterau dysgu neu brofiad o ofal yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol**, oherwydd nad yw gwasanaethau eraill yn gwybod ble i'w hatgyfeirio am gymorth neu ddim yn sylwi ar eu hangen am gymorth.
- ▶ **Mae angen cynnig cymorth mewn ffordd hyblyg ac am gyfnod hirach o amser**. Dywedodd dros draean o'r sefydliadau eu bod fel arfer yn gweithio gyda'u defnyddwyr gwasanaethau am lai na chwe mis. Serch hynny, pwysleisiodd plant a phobl ifanc bwysigrwydd cymorth hyblyg a oedd ar gael pan oedd ei angen arnyn nhw a chyhyd â bod angen, gan gydnabod efallai na fyddan nhw'n gallu ymgysylltu'n gyson â'r cymorth hwn gan fod eu bywydau a'u hadferiad yn gymhleth.

Ymarfer effeithiol wrth gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol

- ▶ **Mae'r berthynas rhwng y plentyn a'r ymarferydd, a'r angen am barhad, yn hollbwysig** - yn arbennig i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd ag anawsterau dysgu.
- ▶ **Mae'n cymryd amser i blant a phobl ifanc ddatblygu ymddiriedaeth**, yn enwedig pan fyddant wedi cael profiadau negyddol o wasanaethau yn y gorffennol. Mae angen iddynt deimlo bod pobl yn credu ynddynt, ac yn cael cyfleoedd i ddewis a bod mewn rheolaeth.
- ▶ **Rhaid i'r gefnogaeth fod yn sensitif i anghenion croestoriadol ac yn hyblyg wrth ymateb iddynt**.² Mae'n hanfodol meddwl y tu hwnt i'r stereoteip o ddioddefwyr ac agor gwasanaethau i bawb; mae hyn yn cynnwys estyn allan i ymgysylltu â grwpiau sy'n llai parod i'w hatgyfeirio a datblygu sgiliau i weithio gyda'r rhai ag anawsterau dysgu, er enghraifft.

2 Diffinnir rhyngdestunoldeb fel "y ffordd gymhleth, gronnus y mae effeithiau sawl math o wahaniaethu (fel hiliaeth, rhywiaeth a dosbarth cymdeithasol) yn cyfuno, yn gorgyffwrdd neu'n croesdorri yn enwedig ym mhrofiadau unigolion neu grwpiau ar yr ymylon" ([Geiriadur Merriam-Webster](#)).

- ▶ **Mae’n bwysig bod gwasanaethau’n deall cymhlethdod bywydau plant** ac yn cynnig cymorth a all helpu gydag ystod eang o feysydd mewn bywyd, yn ogystal ag ystod o ymyriadau sy’n briodol i oedran a sefyllfa. Rhaid i wasanaethau fod yn arbennig o ymwybodol o gymhlethdodau bywyd pobl ifanc mewn gofal ac effaith bosibl trawma lluosog.
- ▶ **Mae angen i wasanaethau greu gofod lle gall plant a phobl ifanc deimlo’n ddiogel a chael croeso.** Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffyrdd o weithio sy’n cael eu llywio gan bŵer, anghydraddoldeb a thrawma, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu grymuso a bod pobl yn gwrandao arnynt. I blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a’r rheini ag anawsterau dysgu, mae’n arbennig o bwysig eu bod yn gwybod y gallant siarad yn agored â’u hymarferydd ynglŷn â beth bynnag sydd ei angen.
- ▶ Mae **gwasanaethau addas i rieni nad ydynt yn cam-drin** yn hanfodol i ddiogelwch ac adferiad plant. Mae’n ymddangos bod y rhain yn aml yn ddiffygiol, yn anghyson neu ddim yn cael eu comisiynu’n benodol, ond dywedodd ymatebwyr i’r adolygiad gwybodaeth a’r arolwg o ddarparwyr gwasanaethau eu bod yn bwysig.

Heriau wrth ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol

- ▶ **Amlygodd darparwyr gwasanaethau yr anawsterau roeddent yn eu hwynebu yn aml wrth weithio gydag asiantaethau eraill** nad oeddent wastad yn ymddangos eu bod yn deall anghenion y plant a’r bobl ifanc roeddent yn eu cefnogi, neu nad oeddent yn gallu cynnig cymorth digonol. Cafwyd canfyddiad bod diffyg cydweithio a rhannu gwybodaeth yn golygu bod gweithio’n effeithiol ar draws asiantaethau gwahanol yn anodd.
- ▶ Gallai **ymgysylltu â phobl ifanc** a goresgyn y diffyg ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol hefyd fod yn heriol pan fydd pobl ifanc wedi cael profiadau negyddol o wasanaethau eraill.
- ▶ **Mae angen i ymgysylltiad gael ei gefnogi** gan rieni, gofalwyr ac oedolion eraill ym mywydau plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn aml ar goll ymhlith y rhai mewn gofal, tra bod yr adolygiad gwybodaeth yn nodi ymgysylltiad rhieni neu ofalwyr fel un o’r prif rwystrau i sicrhau canlyniadau positif ar gyfer plant iau.

Mesur effeithiolrwydd - canlyniadau gwerthfawr a modelau gwasanaeth

- ▶ **Mae’r gwasanaethau sy’n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn amrywiol ac felly mae’n rhaid bod ganddynt fframweithiau canlyniadau sydd wedi’u teilwra.** Lle gallai plant dal i gael eu cam-drin, nid yw’n addas canolbwyntio ar ganlyniadau ‘adferiad’.
- ▶ **Nid oedd yn bosibl nodi ‘model craidd’** ar gyfer y grŵp hwn o wasanaethau, er bod egwyddorion cytûn ar draws y sector.
- ▶ **Efallai bod ffyrdd o feddwl am grwpio gwasanaethau** - argymhellodd yr adolygiad gwybodaeth chwe math o wasanaeth, gan wahaniaethu rhwng gwaith gyda dioddefwyr a goroeswyr o wahanol oedrannau, a rhwng cam-drin plant yn rhywiol yn gyffredinol a chamfanteisio’n rhywiol ar blant yn benodol.
- ▶ **Dylai gwerthusiad ystyrion ganolbwyntio ar fesur yr hyn sy’n bwysig i ddiodefwyr ifanc a goroeswyr** cam-drin plant yn rhywiol - dylai eu safbwyntiau lywio’r hyn sy’n cael ei ystyried yn effeithiol a’r hyn sy’n cyfrif fel llwyddiant.
- ▶ **Mae pwyslais ar fesur canlyniadau yn arbennig o heriol** i’r grŵp hwn o wasanaethau, oherwydd y niwed a gall adferiad fod yn gymhleth. Bydd siwrnai pob plentyn yn wahanol. Efallai y dylid canolbwyntio’n gyntaf ar egluro nodweddion ansawdd ar gyfer y grŵp hwn o wasanaethau, sy’n cynnwys prosesau i gael barn defnyddwyr gwasanaethau.

Cynaliadwyedd

- ▶ Nodwyd **diffyg cyllid** gan hanner yr ymatebwyr i’r arolwg o ddarparwyr gwasanaethau, a oedd yn teimlo bod y pwysau i godi arian drwy’r amser yn dreth ar eu hadnoddau.
- ▶ **Mae angen mwy o ymchwil a thystiolaeth o arfer da yn y maes** i gefnogi datblygiad gwasanaethau, yn enwedig o ran dealltwriaeth well o’r materion sy’n wynebu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu.

Nodir canfyddiadau manylach o bob un o’r tair astudiaeth yn yr Atodiad i’r papur briffio hwn.

3. Camau nesaf

Wrth gomisiynu'r tair astudiaeth sy'n llunio'r rhaglen Deall Effeithiolrwydd, ein nod oedd ymchwilio a ellid nodi model gwasanaeth 'craidd' cyson a'i gyflwyno ar raddfa ddigonol, i'w astudio mewn gwerthusiad o ansawdd da. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn a ddangoswyd yn yr astudiaethau ynglŷn â pha mor fuddiol ac ymarferol fyddai astudiaeth o'r fath, ac yn edrych ar sut i fwrw ymlaen â'n gwaith ar effeithiolrwydd gwasanaethau.

A ddylid cynnal gwerthusiad ar raddfa fawr?

Mae'n debyg mai'r cam cyntaf oedd diffinio'n gliriach pa **elfennau ymarfer** y mae chwaraewyr allweddol yn eu nodi fel rhai effeithiol, ar gyfer grwpiau cyffredinol o blant ac ar gyfer grwpiau penodol fel y rhai ag anawsterau dysgu a phlant sy'n derbyn gofal. Roeddem hefyd yn gobeithio nodi **canlyniadau craidd** a allai fod yn ystyrlon ar gyfer ystod o wasanaethau.

Atebodd yr astudiaethau'r cwestiynau hyn yn dda, ond ni wnaethant nodi ffordd y gallem gynnal yr astudiaeth werthuso fawr yr oeddem wedi'i rhagweld. Mae ein cyllid prin ein hunain a'i faint yn rhwystrau ymarferol allweddol, ond nid yw'n amlwg, hyd yn oed gyda mwy o amser ac adnoddau, y byddai astudiaeth o'r fath yn ymarferol.

Nid oes model ymarfer yn cael ei ddarparu'n gyson gan nifer fawr o wasanaethau, ac mae cryn amrywiaeth rhwng gwasanaethau: yn gyffredinol, mae gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol arbenigol yn wahanol iawn i wasanaethau therapi ôl-gam-drin o ran dull, er enghraifft, ac mae'n anodd gweld sut gellid cynnwys y ddau grŵp yn yr un gwerthusiad. Daw'r adolygiad gwybodaeth i'r casgliad:

"O ystyried yr ystod o wasanaethau, eu gwahanol ddulliau a'u ffyrdd o weithio, a'r prinder gwerthuso gyda'r rhan fwyaf ohonynt, nid yw'n bosibl nodi modelau [sy'n dangos addewid penodol], ac yn wir rhybuddiodd llawer o'n cyfranwyr ymchwil yn erbyn hyn."

Atgyfnerthodd yr arolwg o ddarparwyr gwasanaethau y canfyddiad hwn gan adleisio canfyddiadau arolygon blaenorol a ddangosodd amrywiaeth a graddfa gyfyngedig y gwasanaethau.³

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod clystyrau o wasanaethau a rhai nodweddion llwyddiannus yn cael eu rhannu'n eang.

At hynny, ymddengys bod rhywfaint o gonsensws rhesymol ynglŷn â chanlyniadau craidd, sy'n bwysig o safbwynt staff a defnyddwyr gwasanaethau.

Bydd angen ystyried pryderon ychwanegol a amlygwyd gan y rhaglen Deall Effeithiolrwydd mewn unrhyw waith gwerthuso wrth symud ymlaen:

Tirlun cyfnewidiol

Mae prinder gwasanaethau sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, ac maent yn bodoli o fewn tirlun sy'n newid yn gyflym. Risg ddifrifol ar gyfer unrhyw werthusiad yn y maes hwn, yn enwedig gwerthusiad sy'n anelu at gyflawni dimensiwn hydredol, yw y byddai rhai gwasanaethau naill ai'n peidio â bodoli mwyach neu'n cael eu hail-lunio yn rhywbeth hollol wahanol yn ystod y cyfnod gwerthuso.

Byddai'n angenrheidiol i'r gwasanaethau a'r astudiaeth werthuso gael eu hariannu'n ddigon sefydlog i ddilyn plant a phobl ifanc o'r dechrau i'r diwedd a hyd yn oed y tu hwnt i ddiwedd yr astudiaeth. Nid yw'r Ganolfan CSA yn ariannu unrhyw wasanaethau ei hun, ac mae'r adnoddau ymchwil sydd ganddi yn brin.

Sut i ychwanegu gwerth

Mae'n bwysig cofio bod treial rheoli ar hap yn y DU wedi'i gwblhau yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar seicotherapi ar gyfer plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.⁴ Er na ddarparodd yr astudiaeth honno ddilyniant hirdymor o ganlyniadau, byddai angen i unrhyw werthusiad arall yn y maes hwn fod yn glir ynglŷn â'r hyn roedd yn ei ychwanegu at y dystiolaeth bresennol.

3 Gweler [Sexual Abuse and Therapeutic Services for Children and Young People: The Gap between Provision and Need](#) (Allnock et al, 2009) a [Mapping Therapeutic Services for Sexual Abuse in the UK in 2015](#) (Allnock et al, 2015).

4 Gweler [Letting the Future In: A Therapeutic Intervention for Children Affected by Sexual Abuse and Their Carers. An Evaluation of Impact and Implementation](#) (Carpenter et al, 2016).

Felly beth gellir ei wneud?

Mae'r themâu sy'n deillio o'n rhaglen Deall Effeithiolrwydd yn awgrymu ffyrdd y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith hwn os adnewyddir cyllid y Ganolfan CSA.

Canolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb penodol - rhieni nad ydyn nhw'n cam-drin

Un thema a ddaeth i'r amlwg yn arbennig o glir o'r rhaglen Deall Effeithiolrwydd fel un sydd heb ei hastudio rhyw lawer hyd yma oedd yr angen i ddeall mwy ynglŷn â sut mae gwasanaethau'n ymateb i rieni nad ydynt yn cam-drin plant ond sydd â phlant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Nododd hysbyswyr allweddol yn yr adolygiad gwybodaeth fod cefnogaeth i rieni yn allweddol i ddiogelwch ac adferiad pobl ifanc, ond does dim cyllid gan nifer o wasanaethau i ddarparu cefnogaeth o'r fath. At hynny, prin fu'r gwaith i ddisgrifio ymatebion presennol a nodi themâu allweddol mewn ymateb effeithiol. Gobeithiwn ddatblygu astudiaeth o'r fath yn 2020/21.

Gweithio gyda grwpiau o wasanaethau tebyg

O fewn yr amrywiaeth o fathau o wasanaethau a ddarperir, mae'n amlwg bod y grŵp o sefydliadau sy'n gweithredu o fewn y Ffederasiwn Argyfwng Trais Rhywiol yn rhannu egwyddorion ac arferion allweddol. Mae'r gwasanaethau hyn yn gyfran sylweddol o'r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, o ran nifer y plant a'r bobl ifanc a wasanaethir. Felly, os yw adnoddau'n caniatáu, credwn y byddai gwerth cynnal astudiaeth bellach gan edrych yn benodol ar y grŵp hwn o wasanaethau.

Yn ogystal, ychydig iawn o werthuso a wnaed o wasanaethau sy'n cynnig cymorth ar hyd llwybr bywyd ac sy'n 'holistaidd' yn eu ffordd o weithio (h.y. cynnig therapi ac eiriolaeth, sesiynau un-i-un a gwaith grŵp o dan yr un ymbarél gwasanaeth). Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod gan lawer o'r gwasanaethau cyfredol sy'n cefnogi pobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol, fodel gwaith tebyg a chanlyniadau tebyg (fel y nodwyd drwy'r arolwg). Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai o'r gwasanaethau hyn yn newid pwyslais - fel ymestyn eu cylch gwaith i gynnwys diogelu cymhleth - felly byddai angen i'r Ganolfan CSA fod yn hyderus bod sefydlogrwydd digonol o fewn y clwstwr hwn i alluogi rhywfaint o waith gwerthuso cyffredinol.

Datblygu astudiaeth hydredol

Ymhlith arbenigwyr ac ymarferwyr o fewn y sector, mae cryn ddiddordeb mewn astudiaeth hydredol sylweddol a fyddai'n dilyn plant a phobl ifanc am gryn amser ar ôl iddynt dderbyn gwasanaeth sy'n ymateb i'w camdriniaeth rywiol. Gallai astudiaeth o'r fath roi dealltwriaeth ddyfnach o drywydd plant a phobl ifanc ar ôl y profiad hwn, a gallai daflu goleuni ar ba elfennau o'r cymorth a roddir sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol neu'n ddi-fudd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, o edrych yn ôl.

Byddai heriau sylweddol (gan gynnwys heriau moesegol) wrth olrhain ac ail-gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau dros gyfnod o flynyddoedd, ond mae'n bosibl y gellid goresgyn y rhain. Byddai angen cyllid ymchwil penodol sylweddol i ddarparu sefydlogrwydd digonol i gynnal astudiaeth o'r fath.

Rhoi plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wraidd y gwaith

Mynegodd gwasanaethau bryderon bod gweithgareddau gwerthuso yn aml yn canolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n bwysig i sefydliadau (a chyllidwyr) yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i ddioddefwyr a goroeswyr ifanc. Cafwyd galwad gref gan ymarferwyr a phobl ifanc eu hunain i roi safbwyntiau plant a phobl ifanc wrth wraidd yr ymchwil a'r gwerthuso. Mae ein hastudiaethau wedi dod â safbwyntiau rhai pobl ifanc at ei gilydd, gan gynnwys canlyniadau sy'n berthnasol iddyn nhw - ond mae lle i fwy o astudiaethau o'r fath, gan gynnwys canolbwyntio ar grwpiau sy'n cael eu clywed yn llai aml, fel pobl ifanc du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a LGBT+.

Atodiad: Canfyddiadau o’r ymchwil

1. Adolygiad Gwybodaeth

Argaeledd

Mae’n ymddangos bod y pwyslais ar amddiffyn plant wedi symud o gam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn gyffredinol tuag at gamfanteisio ar blant yn rhywiol (CSE) yn benodol - ac er bod gwasanaethau CSE arbenigol wedi datblygu, mae nifer y gwasanaethau CSA cyffredinol wedi dirywio.

Mae’r blaenoriaethau comisiynu ar hyn o bryd yn tueddu i adlewyrchu pryderon ynglŷn â chamfanteisio ar blant a phobl ifanc yn droseddol (yn enwedig ‘llinellau cyffuriau’), ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhai pobl ifanc yn ogystal â’u profiadau o erledigaeth.

Nodweddion ymarfer effeithiol

Roedd elfennau craidd gwasanaethau effeithiol yn cynnwys:

- ▶ darparu perthnasoedd cyson a sefydlu ymddiriedaeth, fel y gall plant a phobl ifanc deimlo bod pobl yn credu ynddynt
- ▶ mynd i’r afael â’r cam-drin yn uniongyrchol
- ▶ bod ag ethos o rymuso, gan greu cyfleoedd ar gyfer dewis a rheolaeth
- ▶ cael ffyrdd o weithio sy’n cael eu llywio gan bŵer, anghydraddoldeb a thrawma
- ▶ bod yn hyblyg o ran amlder a lefel y cyswllt a defnyddio amrywiaeth o weithgareddau
- ▶ cefnogi rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, a darparu cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth cymheiriaid
- ▶ creu llyfdd sy’n teimlo’n ddiogel lle gall plant a phobl ifanc deimlo bod croeso iddynt
- ▶ staff gwybodus, medrus sy’n cael eu cefnogi’n dda
- ▶ cael yr amseroedd aros lleiaf posib a gallu cynnig cefnogaeth hirdymor.

Heriau

Nododd ymarferwyr fod ymgysylltu â rhieni neu ofalwyr yn rhwystri i gyflawni’r canlyniadau mwyaf positif i blant iau.

Teimlwyd mai amseriad y cymorth a goresgyn diffyg ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol oedd y rhwystrau mwyaf wrth gefnogi ac ymgysylltu â phlant hŷn a phobl ifanc. Mae angen yr hyblygrwydd a’r adnoddau ar wasanaethau i allu treulio amser yn datblygu ymddiriedaeth, caniatáu ar gyfer bywydau anhrefnus neu ohirio therapi.

Gwerthuso

Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd gwybod:

- ▶ barn plant a phobl ifanc (a rhieni) am wasanaethau
- ▶ beth yw’r canlyniadau hirdymor i blant a phobl ifanc sydd wedi defnyddio gwasanaethau
- ▶ beth sy’n gweithio i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc
- ▶ pa ymyriadau a sut maen nhw’n gweithio
- ▶ pa newidiadau sy’n arwyddocaol i blant a phobl ifanc
- ▶ nid yn unig beth sy’n gweithio ond beth sydd ddim.

Nododd yr adolygiad hefyd nifer o ganlyniadau a oedd yn cael eu hystyried yn bwysig gan ddefnyddwyr gwasanaethau a staff gwasanaethau arbenigol cam-drin plant yn rhywiol:

- ▶ ddim yn cael eu cam-drin mwyach
- ▶ peidio â beio’ch hun
- ▶ cael eich clywed a’ch deall
- ▶ ymdeimlad mwy positif o chi’ch hun
- ▶ llai o symptomau trawma
- ▶ strategaethau ymdopi mwy positif
- ▶ perthnasoedd a chyfeillgarwch positif
- ▶ y gallu i ddychmygu dyfodol positif
- ▶ hyder i godi llais a gwneud penderfyniadau
- ▶ sefyllfa fyw sefydlog
- ▶ teimlo’n ddiogel
- ▶ teimlo’n gyffyrddus yn eich corff eich hun
- ▶ chwareus a rhwyddineb o ran perthynas ag eraill.

Roedd pob un o’r 12 gwasanaeth yr ymwelwyd â nhw eisoes yn gwneud rhywfaint o weithgareddau monitro a gwerthuso. Serch hynny, roedd staff mewn nifer ohonynt yn ystyried gwerthuso fel rhywbeth a wnaed oherwydd bod cyllidwyr presennol neu ddarpar gyllidwyr yn gofyn iddyn nhw wneud hynny. Teimlent fod offer gwerthuso wedi’u dewis er mwyn bodloni gofynion allanol yn hytrach na’u gwerth i’w gwasanaethau a’u cleientiaid.

Cynaliadwyedd

Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yr ymwelwyd â nhw yn ddibynnol iawn ar gyllid anstatudol (e.e. Plant mewn Angen, Cronfa’r Loteri Fawr ac ymddiriedolaethau elusenol llai), gyda dim ond cyfran fach o’u gweithgareddau wedi’u comisiynu gan asiantaethau iechyd, cyfiawnder troseddol neu ofal cymdeithasol.

2. Arolwg o ddarparwyr gwasanaethau

Argaeledd

Dywedodd tri chwarter y sefydliadau fod y galw am eu gwasanaethau yn fwy na'u gallu, gyda nifer ohonynt yn dweud bod yn rhaid i blant a phobl ifanc aros dros dri mis i gael eu gweld.

Er na roddodd bron i draean unrhyw gyfyngiad amser ar ba mor hir roeddent yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, dywedodd dros draean eu bod fel arfer yn darparu cymorth unigol am lai na chwe mis.

Nodweddion ymarfer effeithiol

Amlygodd sefydliadau bwysigrwydd:

- ▶ darparu gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan drawma a oedd yn sensitif i anghenion plant a phobl ifanc
- ▶ cynnig ystod o ymyriadau a oedd yn briodol i'w hoedran a'u sefyllfa, ac yn ymatebol i'w hanghenion, cyhyd â bo angen
- ▶ bod yn hygyrch i blant a phobl ifanc o ran lleoliad ac amseriad
- ▶ cael staff hynod fedrus
- ▶ cysylltiad clos a chefnogaeth gan asiantaethau eraill
- ▶ cynnwys rhieni a gofawyr.

Heriau

Dywedodd hanner y sefydliadau fod prinder cyllid yn un o'r prif heriau y daethant ar eu traws wrth ddarparu eu gwasanaethau, a themlent fod y pwysau i godi arian drwy'r amser yn dreth ar eu hadnoddau.

Disgrifiodd sefydliadau hefyd yr anawsterau a gafwyd wrth weithio gydag asiantaethau eraill a oedd, yn eu barn nhw, yn aml yn methu â deall nac ymateb yn briodol i anghenion y plant a'r bobl ifanc roeddent yn eu cefnogi. Ystyriwyd bod diffyg rhannu gwybodaeth a chydweithio yn rhwystr penodol.

Teimlai rhai sefydliadau fod diffyg gwasanaethau ehangach ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc, fel lleoliadau priodol i blant sy'n derbyn gofal.

Gwerthuso

Disgrifiodd sefydliadau amrywiaeth eang o ganlyniadau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys llai o symptomau trawma, diogelwch gwell, iechyd meddwl a lles gwell, a pherthnasoddd iach.

Roedd y rhan fwyaf yn defnyddio systemau rheoli achosion electronig a/neu gronfeydd data i gofnodi gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau.

Roedd gan bedair rhan o bump systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd, a oedd yn cynnwys offer canlyniadau yn ogystal ag adborth uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhieni. Dywedodd chwarter eu bod yn mynd ar drywydd defnyddwyr gwasanaethau i edrych ar ganlyniadau tymor hwy.

Cynaliadwyedd

Amlygodd sefydliadau yr angen am:

- ▶ fwy o amser ac adnoddau i ddarparu cymorth uniongyrchol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol
- ▶ mwy o ymchwil a thystiolaeth o arfer da yn y maes.

3. Safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau ag anawsterau dysgu neu brofiad o ofal

Argaeledd

Roedd y bobl ifanc a gafodd eu cyfwrdd wedi ymgysylltu â gwasanaethau eraill o'r blaen nad oeddent wedi addasu i'w hanghenion ychwanegol - er enghraifft, drwy ddod â chymorth i ben yn ddirybudd (roedd pobl ifanc ag anawsterau dysgu yn ei chael yn arbennig o anodd) a pheidio â darparu cymorth cyson.

Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi atgyfeirio eu hunain at wasanaethau; mae hyn yn tanlinellu'r angen i wasanaethau wneud gwybodaeth yn hygyrch.

Cafwyd anhawster adnabod pobl ifanc ag anawsterau dysgu a'u recriwtio am gyfweiliad, sy'n codi nifer o gwestiynau. A yw pobl ifanc o'r fath yn derbyn gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol? A yw ymarferwyr o fewn y gwasanaethau hynny yn glir beth yw ystyr y termau hyn ac ynglŷn â pherthnasedd hollbwysig eu gwasanaethau i bobl ifanc o'r fath?

Nodweddion ymarfer effeithiol

Amlygodd y ddau grŵp o bobl ifanc agweddau ar ddarparu gwasanaethau a oedd yn bwysig iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ▶ cael gwybodaeth glir ynglŷn â'r gwasanaeth, gan gynnwys pam y cawsant eu hatgyfeirio.
- ▶ teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn deilwng o gefnogaeth, wedi'u grymuso, yn derbyn gofal a bod pobl yn gwrando arnynt, ac yn teimlo bod gan yr ymarferydd ddiddordeb ynddynt fel person ar draws pob agwedd ar eu bywyd
- ▶ cael rhywun i siarad â nhw sy'n gwrando heb farnu, ac y gellid siarad â nhw am unrhyw beth roedd y person ifanc eisiau, fel bod y berthynas yn ymwneud â mwy na'u profiadau o gam-drin yn unig
- ▶ gwybod y gallent siarad yn agored â'u hymarferydd am yr hyn roedd angen iddynt ei wneud, heb ofni y byddai'r sgysiau hynny'n cael eu rhannu oni bai bod risg o niwed
- ▶ ymarferwyr yn hyblyg o ran eu ffordd o weithio ac yn ymweld â nhw pan roeddent yn teimlo fwyaf cyfforddus
- ▶ cael mynediad at gymorth hirdymor, gydag amser i ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth fel bod ymgysylltiad a chyfranogiad llawn yn cael eu gwireddu
- ▶ cael dull personol a oedd yn diwallu eu hanghenion penodol
- ▶ dysgu strategaethau i ddelio ag emosiynau a chadw'n ddiogel
- ▶ deall nad eu bai nhw oedd y cam-drin ac nad oeddent yn gyfrifol, gan gynnwys defnyddio iaith sydd ddim yn rhoi bai.

I bobl ifanc mewn gofal, roedd yn bwysig cael ymarferydd cyson oedd yn:

- ▶ deall cymhlethdod eu bywyd ac effaith trawma lluosog
- ▶ gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael gofal a'u meithrin.

Roedd pobl ifanc ag anawsterau dysgu hefyd yn gwerthfawrogi cael ymarferydd cyson, a fyddai'n eu helpu i oresgyn eu gorbryder ynglŷn â newid. Hefyd, roeddent yn gwerthfawrogi cael:

- ▶ gwybodaeth hygyrch ac amser a chymorth i'w phrosesu
- ▶ amser a lle penodol am gymorth, a digon o rybudd os oedd y cymorth ar fin dod i ben
- ▶ dealltwriaeth a chefnogaeth mewn lleoliadau addysg.

Heriau

Dywedodd pobl ifanc fod y rhwystrau i ymgysylltu a derbyn cymorth yn cynnwys:

- ▶ gwasanaethau eraill ddim yn ymwybodol bod gwasanaethau cymorth arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol ar gael, neu ddim yn gwybod beth gallent ei gynnig
- ▶ atgyfeiriadau yn cael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol a fethodd ag egluro i ble y cawsant eu hatgyfeirio a pham, gan eu gadael yn ofnus, yn bryderus ac yn ansicr o'r hyn i'w ddisgwyl
- ▶ wedi cael eu siomi gan wasanaethau, gweithwyr proffesiynol ac awdurdodau eraill
- ▶ derbyn cymorth amhriodol, neu gymorth priodol ar adegau amhriodol
- ▶ diffyg dulliau cynhwysol a holistig, neu addasiad o ymateb y gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu
- ▶ diffyg dealltwriaeth, yn enwedig o fewn addysg, o'r trawma y mae pobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn ei ddioddef
- ▶ cael eich cymryd i ofal oherwydd cam-drin rhywiol, gan y gallai hyn waethygu'r trawma a'r hunan-feio presennol.

Gwerthuso

Roedd pobl ifanc yn y ddau grŵp o'r farn ei bod yn bwysig i wasanaethau wireddu'r canlyniadau canlynol

- ▶ teimlo'n ddiogel a chael cefnogaeth
- ▶ cael strategaethau i ddelio ag emosiynau
- ▶ mwy o hyder, hunan-werth, hunan-gred a'r gallu i siarad am gamdriniaeth
- ▶ perthnasoedd mwy positif ag eraill, gan gynnwys rhieni a ffrindiau
- ▶ mwy o wybodaeth am 'risgiau'
- ▶ iechyd corfforol a rhywiol gwell.

Cynaliadwyedd

Cododd y cyfweiliadau rai goblygiadau o ran ymarfer sy'n berthnasol i gynaliadwyedd gwasanaethau:

- ▶ Mae angen i wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol ddeall problemau plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu yn well ac estyn allan i sicrhau atgyfeiriadau priodol.
- ▶ Dylai gwasanaethau geisio addasu eu cymorth i anghenion unigol, gan roi ystyriaeth benodol i sut maen nhw'n cyfathrebu â phobl ifanc ag anawsterau dysgu.
- ▶ Gall cydleoli gwasanaethau mewn timau amlasiantaeth wella cyfathrebu ac amseroedd ymateb er mwyn mynd i'r afael â'r chyflawnwyr cam-drin plant yn rhywiol a chymorth i bobl ifanc.

Yr adroddiadau yng nghyfres 'Deall Effeithiolrwydd' y Canolfan CSA yw:

- ▶ McNeish, D., Kelly, L. and Scott, S. (2019) *Effectiveness of Services for Sexually Abused Children and Young People, Report 1: A Knowledge Review*.
- ▶ Parkinson, D. and Sullivan, S. (2019) *Effectiveness of Services for Sexually Abused Children and Young People, Report 2: A Survey of Service Providers*.
- ▶ Franklin, A., Bradley, L. and Brady, G. (2019) *Effectiveness of Services for Sexually Abused Children and Young People, Report 3: Perspectives of Service Users with Learning Difficulties or Experience of Care*.

Cyhoeddiadau eraill y Canolfan CSA y cyfeirir atynt yn y papur briffio hwn yw:

- ▶ Sullivan, R. and Sharples, E. (2018) *The CSA Centre's Evaluation Fund: A Reflection*.
- ▶ Parkinson, D. and Sullivan, R. (2019) *Measuring Your Effectiveness: A Practical Guide for Services Working with Children and Young People Affected by Sexual Abuse*.

Mae'r holl gyhoeddiadau uchod ar gael ar ein gwefan: www.csacentre.org.uk/our-research/effectiveness/